

## **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI 7 RHAGFYR 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi  
Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mawrth, 7 Rhagfyr 2021

### **YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Sean Bibby, David Evans, George Hardcastle, Patrick Heesom,  
Cindy Hinds, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac  
Owen Thomas

### **YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Andy Hughes**

### **HEFYD YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: Helen Brown, Veronica Gay, Richard Jones, Mike Peers ac  
Arnold Woolley (cychwynnwyr y galw i mewn).

Cynghorwyr: Christine Jones (Dirprwy Arweinydd - Partneriaethau – ac Aelod  
Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol), Haydn Bateman, Richard Lloyd a  
David Wisinger (arsylwyr).

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg),  
Cynghorydd Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd),  
Cynghorydd Derek Butler (Aelod Cabinet Datblygu Economaidd), Cynghorydd  
Glyn Banks (Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd), Prif Weithredwr, Prif Swyddog  
(Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), a'r Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd  
a Chludiant) Ar gyfer cofnod rhif 45Swyddog y Strategaeth Gludiant

### Ar gyfer cofnod rhif 47

Rachel Perry (Rheolwr Prosiect HyNet) ac Amy Bodey (Pennaeth  
Cyfathrebiadau) o Progressive Energy Ltd

### Ar gyfer cofnodion rhif 48 a 49

Rheolwr Gwasanaeth (Menter ac Adfywio) a'r Swyddog Gweithredol Strategol

**YN BRESENNOL:** Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Hwylusydd  
Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi a Swyddog Gwasanaethau  
Democrataidd

## **42. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

## **43. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2021, fel y  
y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Paul Shotton a David Evans.

### **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

#### **44. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried a chytunwyd ar y newidiadau canlynol:

- Adroddiad ar y Strategaeth Newid Hinsawdd i'w rhoi gerbron ym mis Chwefror.
- Y briff aelodau ar rwydwaith Cludiant Integredig Sir y Fflint i'w aildrefnu ar gyfer dechrau 2022.
- Adroddiad ar bolisi'r Cyngor ar ryddhau balwŷns a'r effaith amgylcheddol i fod ar raglen cyfarfod i ddod, yn unol â chais y Cynghorydd Dave Evans.
- Y Cynghorydd Dennis Hutchinson i drafod ei ofynion ar gyfer adroddiad mewn cyfarfod i ddod ar safle tirlenwi Standard gyda'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi).

Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod mis Mehefin am orfodaeth mewn perthynas â sbwriel sy'n cael ei daflu ar ôl i bobl fod yn yfed alcohol, darllenodd yr Hwylusydd gyngor yr Adran Gyfreithiol a oedd yn egluro nad yw'r pwerau deddfwriaethol sydd ar gael i'r heddlu o dan y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored ar gael i Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cyngorwyr Paul Shotton a Joe Johnson.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Y dylid nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd;
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y cynnydd a wnaed gyda'r camau gweithredu heb eu cwblhau yn cael ei nodi.

#### **45. MAP O'R RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL – CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD FFURFIOL**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) adroddiad ar ganlyniadau ymarferion ymgynghori anffurfiol a ffurfiol er mwyn galluogi gwneud y diweddariadau angenrheidiol i Fap Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, talodd y Prif Swyddog deyrnged i'r tîm am eu gwaith yn asesu ac yn ymchwilio'r llwybrau Teithio Llesol. Roedd teclyn mapio newydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, Commonplace, wedi helpu i gynyddu ymgysylltiad cyhoeddus yn ystod y pandemig ac roedd y ddolen ar agor i adolygu mapiau.

Byddai'r Prif Swyddog yn ymgysylltu ar wahân â'r Cynghorydd Joe Johnson mewn perthynas â llwybr penodol.

Diolchodd y Cynghorydd Glyn Banks i'r tîm am eu gwaith ac anogodd Aelodau i ddefnyddio'r ddolen i adolygu'r wybodaeth ar y we cyn i'r map terfynol gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Cefnogi'r gwaith a wnaed i gwblhau'r broses ymgynghori statudol a'r broses anffurfiol fel ei gilydd; a
- (b) Cydnabod yn ffurfiol ddilysrwydd y broses a ddilynwyd i gynhyrchu Map Rhwydwaith Teithio Llesol diwedddaredig y Cyngor i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2021.

**46. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR BERFFORMIAD CYNLLUN Y CYNGOR 2021/22**

Cyflwynodd y Prif Swyddogion yr adroddiad monitro canol blwyddyn i adolygu cynnydd yn erbyn eu blaenoriaethau perthnasol fel y'u nodwyd ym Mesurau Adrodd 2020/21 y Cyngor, o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor. Mae'r adroddiad seiliedig ar eithriadau hwn yn canolbwyntio ar feysydd o dan-berfformiad yn erbyn targedau a osodwyd ar gyfer y flwyddyn.

Roedd gan Gynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi dri dangosydd â statws coch o ganlyniad i berfformiad presennol yn erbyn y targed. Y prif ffactorau cyfrannol oedd heriau recriwtio a newidiadau mewn arferion gweithio oherwydd yr ansicrwydd parhaus y mae'r pandemig yn ei achosi.

Effaith y pandemig hefyd oedd y prif reswm am y tri dangosydd coch ym mhortffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant. O ran ailgylchu, roedd perfformiad yn is na'r targed o ganlyniad i gynnydd mewn gwastraff gweddilliol.

Canmolodd y Cynghorydd Paul Shotton y tîm Gwasanaethau Stryd am eu gwaith yn ystod y tywydd garw diweddar. Cydnabu'r heriau o ran recriwtio, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol, sy'n broblem genedlaethol.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod gwaith ar y gweill ar draws y portffolios i ddynodi meysydd sy'n cael anhawster recriwtio i swyddi gwag.

O ran perfformiad ailgylchu, gofynnodd y Cynghorydd Glyn Banks i'r aelodau annog preswylwyr i chwarae eu rhan i helpu i gyrraedd y targed o 70%.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Derek Butler at ffair swyddi lwyddiannus ddiweddar.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Joe Johnson.

### **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r dangosyddion perfformiad canol blwyddyn ar gyfer Adfer, Portffolio ac Atebolrwydd Cyhoeddus i fonitro meysydd o danberfformiad.

*Cafwyd toriad byr cyn yr eitem nesaf*

#### **47. CYFLWYNIAD AR BROSIECT TRAWSFFINIOL CYNHYRCHU HYDROGEN A STORIO CARBON HyNET.**

Croesawodd y Pwyllgor Rachel Perry ac Amy Bodey o Progressive Energy Ltd i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar y prosiect HyNet, fel a ganlyn:

- Beth yw HyNet North West?
- Datgarboneiddio a arweinir gan alw
- Seilwaith HyNet North West
- Cynhyrchu Hydrogen
- Gweithfeydd dal CO<sub>2</sub>
- Manteision ehangach
- Momentwm a Darpariaeth
- Y DU yn flaenllaw o ran arwain y byd mewn ynni glân

Canmolodd y Cynghorydd Paul Shotton y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r prosiect a'i fanteision o ran dyfodol carbon is i'r rhanbarth. Mewn ymateb i gwestiynau dywedodd Rachel Perry bod y seilwaith presennol yn cael ei ddefnyddio ble bynnag bosibl a rhoddodd wybodaeth am brosiect tebyg yn ardal Humber a Tees.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad ar y prosiect arloesol hwn. Yn dilyn cwestiynau, cafodd y Cadeirydd wybod bod y model busnes, gyda chefnogaeth y Llywodraeth, yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac y byddai'n cael i gefnogi gan y Gronfa Dal Carbon gyda'r seilwaith adeiladu'n cael ei ariannu gan sefydliadau unigol.

Mewn ymateb i bryderon a fynegodd y Cynghorydd Patrick Heesom ynglŷn â safle pwll glo'r Parlwr Du, rhoddodd Rachel Perry sicrwydd ynghylch storio CO<sub>2</sub> alltraeth ac asesiadau cadarn o biblinellau cyfredol nad oes unrhyw bryderon yn eu cylch. Bydd sleidiau'r cyflwyniad yn cael eu hanfon at yr Aelodau yn unol â'u cais.

Yn dilyn cwestiynau gan y Cynghorydd Owen Thomas, rhannwyd gwybodaeth am adeiladu seilwaith newydd ar gyfer CO<sub>2</sub> a hydrogen yn Stanlow, ac ar gyfer hydrogen yn unig ym mhyllau halen Swydd Gaer.

Gan groesawu'r targed datgarboneiddio, gofynnodd y Cynghorydd Chris Bithell beth yw'r risgiau posibl. Tra bo'r risgiau diogelwch yn isel, mae twf economaidd a'r cynlluniau hydrogen yn dibynnu ar gefnogaeth y Llywodraeth.

Canmolodd y Cynghorydd Glyn Banks gysylltiad y Cyngor â'r prosiect ac fel aelod lleol Ffynngroyw, cynigiodd gynorthwyo ag ymgysylltiad cyhoeddus cynnar ynghylch y safle er mwyn tawelu meddwl preswylwyr yng nghyffiniau safle'r Parlwr Du. Nododd cydweithwyr HyNet ei sylwadau yn cynnwys ei awgrym am sesiwn ymgysylltu cyhoeddus ar y safle gyda'r mesurau diogelwch priodol yn eu lle.

Siaradodd y Cynghorydd Derek Butler am gysylltiadau â Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a fyddai'n dod a manteision i bawb ar draws y rhanbarth. Mewn ymateb i sylwadau, rhoddwyd gwybodaeth am rôl hydrogen mewn gwresogi cartrefi yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer ddulliau storio Co<sub>2</sub> amgen ar gyfer safle'r Parlwr Du, pe bai angen capasiti ychwanegol. Cafwyd manylion hefyd am wneud y rhwydwaith dosbarthu hydrogen yn ffit ar gyfer y dyfodol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) bod prosiect Bargen Twf Gogledd Cymru ar gyfer canolbwynt hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy yn seiliedig ar hydrogen gwyrdd fel ateb hirdymor cynaliadwy.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod HyNet yn rhan allweddol o waith Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ogystal â Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Paul Shotton a'i eilio gan y Cynghorydd Owen Thomas.

### **PENDERFYNWYD:**

Nodi cynnwys y cyflwyniad.

*Cafwyd toriad byr cyn yr eitem nesaf*

### **48. YSTYRIED MATER A ATGYFEIRIWDYD AT Y PWYLLGOR YN UNOL Â'R TREFNIADAU GALW I MEWN**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o'r drefn ar gyfer galw Penderfyniad Cabinet i mewn fel y manylwyd yn y ddogfen ategol. Roedd y Cabinet wedi ystyried adroddiad ar 'Gynllun ar gyfer Shotton' yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2021. Cafodd y penderfyniad (Cofnod o Benderfyniad 3928) ei alw i mewn gan y Cynghorwyr Mike Allport, Helen Brown, Arnold Woolley, Veronica Gay, Richard Jones a Mike Peers a byddai'r tri a enwyd olaf yn siarad ar yr eitem. Roedd copïau o adroddiad y Cabinet, y Cofnod o Benderfyniad a Cymeradwyaeth o Hysbysiad Galw i Mewn a oedd yn nodi tri rheswm dros y galw i mewn wedi'u cynnwys gyda phapurau'r cyfarfod.

### **49. CYNLLUN AR GYFER SHOTTON**

Sylwadau gan y rhai a lofnododd y galw i mewn

Gwahoddwyd y Cynghorydd Richard Jones i annerch y Pwyllgor yn gyntaf. Gan gydnabod yr heriau y mae pob canol tref yn eu hwynebu a'r pwysau ar y tîm Adfywio, dywedodd y byddai buddsoddi adnoddau'r Cyngor yn Shotton i gefnogi'r dref honno yn annheg ar drefi eraill ar draws Sir y Fflint. Roedd yn amheus

ynghylch yr egwyddorion allweddol y tu ôl i'r penderfyniad, sef lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion amgylcheddol ac i ddibenion cymharu, rhannodd ystadegau ymddygiad gwrthgymdeithasol o bob rhan o Sir y Fflint ynghyd â thystiolaeth ffotograffig o ganol tref Shotton a oedd yn dangos lefelau da o lendid a dim ond ychydig o siopau wedi cau. Roedd yn teimlo felly nad yw'n glir pam bod tref Shotton wedi'i blaenoriaethu, yn enwedig gan ei bod eisoes wedi manteisio ar fuddsoddiad a chyfleusterau da ym maes darpariaeth iechyd, cysylltiadau cludiant, amrywiaeth o fanciau a siopau'n gweithredu ar y stryd fawr yn ogystal â chynlluniau ar gyfer prosiect seilwaith gwyrdd. Dywedodd y dylai adnoddau a buddsoddiad gefnogi pob tref yn Sir y Fflint, neu y dylai cynllun ar gyfer tref benodol gael ei benderfynu arno ar ôl asesu meini prawf perthnasol.

Roedd pryderon y Cynghorydd Veronica Gay yn ymwneud â sut y penderfynwyd mai Shotton yw'r dref sydd angen cymorth fwyaf pan fo trefi eraill yn profi mwy o broblemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chanddynt hefyd lai o gyfleusterau ar y stryd fawr, ac enwodd Saltney fel un enghraifft.

Dywedodd y Cynghorydd Mike Peers nad ar chwarae bach y penderfynwyd galw'r penderfyniad i mewn a bod angen asesiad o anghenion ar draws Sir y Fflint er mwyn rhannu adnoddau'n deg. Gan ddweud fod hwn yn gynllun a fydd yn datblygu dros 8 mlynedd, tynnodd sylw at y lefel uchel o adnoddau swyddogion a gweithgorau a'r diffyg manylion ynglŷn a threfniadau ariannu yn yr adroddiad. Dywedodd y dylid defnyddio'r prosiect fel fframwaith i ddatblygu Cynllun ar gyfer Sir y Fflint i gyd gyda gweledigaeth gyffredin i bennu hierarchaeth angen ar draws pob sir a rhannu adnoddau'n briodol.

#### Ymatebion gan y penderfynwyr

Fel Arweinydd y Cyngor, dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts bod y ffotograffau'n adlewyrchu cynnydd hyd yma o ran mynd i'r afael â materion a oedd yn amlwg ar ddechrau'r prosiect a diolchodd i'r aelodau lleol am eu rhan yn hyn o beth. Canmolodd fentrau mewn amrywiol gymunedau ar draws Sir y Fflint i adfywio canol trefi ac roedd yn cydnabod y byddai gwaith yn cael ei ailadrodd mewn meysydd eraill. Mewn ymateb i'r mater o gadw banciau ar y stryd fawr, dywedodd nad yw penderfyniadau o'r fath o dan reolaeth y Cyngor ac nid oedd yn sicr ynglŷn ag amseriad y galw i mewn yng ngoleuni'r ffaith bod y Cabinet wedi cael adroddiadau ar gynnydd ar bob cam.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) gyflwyniad mewn ymateb i'r galw i mewn, a oedd yn cynnwys:

- Y cefndir a'r sail dros gynllun yn Shotton
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Lefelau incwm cyfartalog fesul tref (Gogledd Cymru)
- Amcanion y Cynllun ar gyfer Shotton
- Effaith atal/rhoi'r gorau i waith ar y Cynllun
- Y dyfodol a'r camau nesaf

Eglurwyd bod Cynllun Meistr Shotton yn deillio o 2020 mewn ymateb i gynnydd mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a chwynion amgylcheddol, ac eglurwyd nad oedd unrhyw gyllid nac adnoddau ychwanegol wedi'u rhyddhau. Roedd rhagor o waith datblygu ar gynllun ar gyfer Shotton yn anelu at wella

gwytnwch cymunedol, cyfuno adnoddau a chysylltu â phrosiectau annibynnol eraill i ychwanegu gwerth a sicrhau diogelwch a bywiogrwydd Shotton. Roedd meini prawf fel lefelau amddifadedd a lefelau incwm cyfartalog yn dangos yr angen i flaenoriaethu Shotton. Roedd sawl risg pe bai'r gwaith yn cael ei stopio ar y cam hwn, yn cynnwys colli momentwm ymgysylltiad â rhanddeiliaid a llwyddiannau hyd yma, yr effeithiau ar sefydliadau partner a cholli cyfleoedd i gysylltu â phrosiectau annibynnol eraill. Eglurodd y Prif Weithredwr y gallai'r prosiect ffurfio glasbrint ar gyfer mentrau tebyg mewn trefi eraill ac y gallai ymgysylltu pellach gyda chymunedau eraill helpu i ddiogelu cyllid i gefnogi'r newidiadau hynny ac annog perchnogaeth gymunedol.

Fel Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, dywedodd y Cynghorydd Derek Butler wrth yr aelodau bod llwyddiannau cynnar y prosiect Gwasanaethau Stryd gwreiddiol o ran taclo materion arwyddocaol yn Shotton wedi esblygu dros amser a bod yr ymdriniaeth yn amlwg yn gweithio fel y mae'r ymateb cydlynol ac amlasiantaeth wedi'i brofi.

Fel Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, siaradodd y Cynghorydd Chris Bithell am Gynlluniau Meistr a ddatblygwyd ar gyfer trefi eraill a'r problemau difrifol a oedd yn amlwg yn Shotton ar y pryd ac a oedd yn cyfiawnhau camau gweithredu penodol ar frys. Roedd angen rheoli a blaenoriaethu adnoddau yn effeithiol ac roedd yr adroddiad yn nodi y byddai capasiti ychwanegol a grëwyd yn y tîm Adfywio yn cefnogi gwaith yn Shotton ac mewn trefi eraill.

Diolchodd y Cynghorydd Glyn Banks, fel Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd, i'r swyddogion am y cyflwyniad manwl. Wrth gyfeirio at leoliad unigryw Shotton, dywedodd bod y Cynllun yn un rhannol uchelgeisiol a'i fod wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer prosiectau mewn trefi eraill.

### Cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor

Canmolodd y Cynghorodd Joe Johnson y Cyngor am weithio gydag Aelodau Lleol i wella cyfleusterau mewn ardaloedd eraill megis Treffynnon,

Gan siarad dros y galw i mewn, gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom pam nad oedd yr eitem a'r modd y blaenoriaethwyd Shotton wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Argymhellodd Opsiwn 4 i gyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn.

Fel un o'r Aelodau Lleol, dywedodd y Cynghorydd Dave Evans ei fod yn cofio'r problemau difrifol yn Shotton a'u heffaith niweidiol ar ganol y drefn ar ddechrau'r prosiect. Roedd yn croesawu'r gwelliannau a wnaed hyd yma gyda mewnbwn nifer o asiantaethau, grwpiau gwirfoddolwyr a thimau'r Cyngor. Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd, awgrymodd ei bod yn bosibl bod y ffotograffau wedi'u cymryd ar yr un pryd ag ymgyrch lanhau ddiweddar gan y Tim Gwasanaethau Stryd ac y dylai cymhariaeth o ystadegau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ystyried maint a phoblogaeth trefi.

Gan siarad o blaid penderfyniad y Cabinet, cynigiodd y Cynghorydd Paul Shotton Opsiwn 1, sef bod y Pwyllgor yn fodlon â'r eglurhad ac yn caniatáu i'r penderfyniad gael ei weithredu.

Roedd y Cynghorydd George Hardcastle yn croesawu adfywiad canol y dref ond galwodd am fwy o dryloywder er mwyn dangos bod pob tref yn cael yr un cyfle.

Dyweddodd y Prif Weithredwr mai'r glasbrint oedd datblygu Cynllun cydlynol yn canolbwyntio ar adfywiad ar draws trefi, ond bod y prosiect yn Shotton yn unigryw am ei fod yn tacllo'r problemau amgylcheddol a throedd ac anhrefn arwyddocaol a oedd yn digwydd yn y dref ar y pryd. Byddai hyn yn ei dro yn helpu i hysbysu gweithgareddau adfywio sydd ar y gweill mewn ardaloedd gan ennyn rhagor o ymgysylltiad â chymunedau er mwyn creu deilliannau cynaliadwy.

Gwahoddodd y Cadeirydd y rhai a wnaeth yr alwad i mewn i grynhoi.

Diolchodd y Cynghorydd Richard Jones i bawb am eu cyfraniadau. Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd, dywedodd bod yr alwad i mewn mewn ymateb i argymhelliad ym mis Tachwedd bod y Cabinet yn cymeradwyo gwaith pellach. Er ei fod yn cefnogi Cynllun Shotton, roedd ei bryderon yn ymwneud ag ymateb y Cyngor am nad oedd yn teimlo bod tystiolaeth i ddangos bod Shotton yn achos arbennig. Roedd yn cydnabod y broblem ddigartrefedd ond yn anghytuno bod ystadegau amgylcheddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ffactorau allweddol yn y dref. Ychwanegodd y dylai'r adroddiad fod wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu er mwyn cymharu meini prawf ar draws canol trefi ac i sicrhau dyraniad priodol adnoddau a chyllid yn seiliedig ar angen. Ar y sail honno, cynigiodd Opsiwn 4 a oedd gofyn bod y penderfyniad yn cael ei roi gerbron yr Aelodau yn y Cyngor llawn.

Gan gadarnhau'r rhesymau dros y galw i mewn, cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at y ffaith nad oedd adroddiad y Cabinet yn cyfeirio at wybodaeth a roddwyd gerbron y cyfarfod hwn, yn cynnwys y siart ystadegau. Mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd, cyfeiriodd at fanteision ehangach cyfleusterau fel cartref gofal Marleyfield a'r gwahaniaeth rhwng Cynlluniau Meistr Shotton a Bwcle. Dywedodd eto ei fod o'r farn bod y Cynllun ar gyfer Shotton ar draul meysydd eraill ac y dylai'r glasbrint ar gyfer gwaith mewn trefi eraill hefyd fod o fudd i gymunedau.

Gwahoddodd y Cadeirydd y gwneuthurwyr penderfyniad i grynhoi.

Atgoffodd y Cynghorydd Ian Roberts yr Aelodau y bu cyfleoedd i ofyn am drafodaeth ar y mater ar gam cynharach. Gan annog Aelodau i gefnogi cynnydd parhaus ar y prosiect, cymeradwyodd y canlyniadau y mae swyddogion a phartneriaid wedi eu gwireddu hyn yma, yn arbennig wrth ymdrin â rhai materion sensitif.

Eiliodd y Cynghorydd David Evans gynnig y Cynghorydd Shotton ac fe ddaeth felly yn gynnig o sylwedd.

Wedi hynny eiliwyd cynnig y Cynghorydd Heesom gan y Cynghorydd Peers.



Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr aelodau ynghylch o broses pleidleisio a dywedodd y byddai angen pleidleisio ar y cynnig o sylwedd am ei fod wedi ei gynnig a'i eilio cyn y gellid ystyried opsiwn arall. Awgrymodd y dylid pleidleisio drwy alw enwau a dangosodd y nifer angenrheidiol o Aelodau eu bod yn cefnogi pleidlais wedi'i chofnodi.

Wedi cynnal pleidlais, cafodd Dewis 1 ei gario fel a ganlyn:-

O blaid y cynnig:

Cynghorwyr: Sean Bibby, David Evans, Cindy Hinds, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas.

Yn erbyn:

Cynghorwyr: Rosetta Dolphin, George Hardcastle, Patrick Heesom, Dennis Hutchinson ac Owen Thomas

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad.

### **PENDERFYNWYD:**

Wedi ystyried y penderfyniad, bod y Pwyllgor yn fodlon â'r eglurhad a dderbyniodd felly gellir yn awr gweithredu'r penderfyniad.

### **50. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 12.50pm)

.....  
**Cadeirydd**